

Gofynnwn ichi ddefnyddio'r templed hwn i ddrafftio'ch ymatebion i'w cyflwyno drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein.

Tystiolaeth gan: UCAC

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor y Blynyddoedd Cynnar, Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Early Years, Children, Young People and Education Committee

Blaenoriaethau Pwyllgor y Blynyddoedd Cynnar, Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Priorities for the Early Years, Children, Young People and Education Committee

Beth yn eich barn chi yw'r prif flaenoriaethau neu'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Seithfed Senedd, a pham?

Croesawn y cyfle hwn i gyfrannu at yr ymgynghoriad ynghylch y prif flaenoriaethau a'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Seithfed Senedd. Mae nifer o'r blaenoriaethau yr ydym yn eu nodi isod yn tarddu o gynigion a gyflwynwyd gan ein haelodau yn ein Cynhadledd Flynyddol. Gellir nodi'r blaenoriaethau yr ydym ni yn eu hargymhell o dan y penawdau canlynol:

- Y GWEITHLU
- Y GYMRAEG
- DIOGELWCH
- Y DECHNOLEG DDIWEDDARAF
- ADY
- CYLLID YSGOLION
- ADDYSG DRYDYDDOL

Y GWEITHLU

Mae nifer o'r materion a grybwyllir isod wedi eu trafod yn ein cyfarfodydd gyda Chorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC). Rydym yn eu nodi yma, gan ein bod am bwysleisio pa mor allweddol yw'r materion isod i ddyfodol addysg yng Nghymru.

BETH?

Denu a recriwtio

*Gwneud gwaith manwl, trylwyr ac arloesol i sicrhau recriwtio a chadw staff, er mwyn diwallu gofynion ysgolion a gwneud yn siŵr fod gennym y niferoedd angenrheidiol o athrawon.

Ymysg y syniadau ac awgrymiadau sydd gennym, mae:

*Talu benthyciadau myfyrwyr e.e. talu 10% yn flynyddol am gyfnod o ddeng mlynedd

*Olrhain hynt a helynt pob myfyriwr a gafodd, ac sy'n cael, bwrsariaethau cychwynnol, er mwyn gweld beth sydd wedi eu cadw yn y proffesiwn neu beth sydd wedi peri iddynt adael y proffesiwn.

Hyblygrwydd swydd

*Archwilio opsiynau posibl a phatrymau gwaith athrawon mewn gwledydd eraill a gweld a oes modd sicrhau bod addysgu yn swydd sy'n cynnig llawer mwy o hyblygrwydd na'r sefyllfa bresennol

*Edrych o'r newydd ar y modd y gweinyddir CPA, yn oystal â faint o CPA a neilltuir i athrawon, ac ystyried sut mae modd gweithredu hyn mewn modd hyblyg ac effeithiol.

PAM?

*Mae sicrhau gweithlu digonol yn allweddol ar gyfer lles a dyfodol ein pobl ifanc. Nid oes digon o bobl yn ymuno â'r proffesiwn ac mae nifer o'r rhai sy'n ymuno yn gadael y proffesiwn yn ystod eu pum mlynedd cyntaf. Mae'n hollbwysig mynd i'r afael â hyn, drwy roi ystyriaeth ddifrifol i'r rhesymau a roddir a) dros beidio ag ymuno â'r proffesiwn yn y lle cyntaf b) dros adael y proffesiwn yn fuan yn ystod gyrfa.

DIOGELWCH

*Gweithio'n agos gyda'r gweithlu addysg ac edrych ar sefyllfaoedd go iawn sydd yn, neu sydd wedi, peri gofid i athrawon, er mwyn gallu mynd i'r afael â sefyllfaoedd peryglus sy'n wynebu'r gweithlu ar hyn o bryd.

*Ystyried y berthynas rhwng y sectorau addysg, gofal ac iechyd ac ystyried y ffyrdd y gall gwella a chryfhau'r berthynas rhyngddynt liniaru ar broblemau

*Rhoi terfyn penodol ar feintiau dosbarthiadau, er mwyn sicrhau bod athrawon yn gallu canolbwyntio ar addysgu a bod dosbarthiadau yn fwy diogel

*Mynd i'r afael â phroblemau arfau mewn ysgolion, gan wneud hynny mewn modd na fydd yn ychwanegu at lwyth gwaith athrawon na chwaith yn ychwanegu at gostau ysgolion unigol. Ystyried cynnig hyfforddiant priodol a chanllawiau teg a chlr i staff.

PAM?

*Sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn llefydd diogel i ddysgwyr ac athrawon. Mae mwy a mwy o broblemau gan bobl ifanc ac mae'n bwysig mynd i'r afael a rhoi cymorth iddynt cyn gynted â phosibl.

*Mae cynnydd yn y nifer o ddigwyddiadau treisgar mewn ysgolion, gydag athrawon yn dioddef ymosodiadau a bygythiadau difrifol iawn, mewn rhai achosion. Mae digwyddiadau o'r fath yn ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag ymuno â'r proffesiwn ac yn peri bod eraill yn gadael y proffesiwn.

Y DECHNOLEG DDIWEDDARAF

a) Deallusrwydd Artiffisial (AI)

*Mae technoleg yn datblygu ar garlam gwyllt ac mae angen sicrhau bod staff a disgyblion yn llwyr ymwybodol beth sy'n dderbyniol o ran Deallusrwydd Artiffisial. Mae angen hyfforddiant eang, cyson a pharhaus a chanllawiau pendant ar y gweithlu, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

b) Ffonau symudol

*Rydym am weld gwaith yn parhau ar y defnydd o ffonau symudol yn ein hysgolion ac yn gofyn am weld cysondeb, er enghraifft drwy ddewis un darparwr Cenedlaethol, gan ariannu un dull o gloi ffonau yn ddiogel yn ystod y diwrnod ysgol a rhoi arweiniad clir ar ei ddefnydd a chadw costau yn isel.

PAM?

*Mae'n bwysig bod pawb yn gwbl ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud yn gyfreithlon a beth yw'r gwahaniaeth rhwng defnyddio'r dechnoleg fel arf i'w cynorthwyo a defnyddio'r dechnoleg mewn modd twyllodrus neu ddiegwyddor e.e. creu delweddu amhriodol. Teimlwn fod angen gwneud y defnydd gorau posibl o'r dechnoleg, gan ei defnyddio'n

effeithiol, yn ddiogel,, yn gyfrifol ac yn egwyddorol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen hyfforddiant pwrpasol ar raddfa genedlaethol, yn ogystal â chanllawiau clir.

*Mae angen cysondeb ac eglurder o ran y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion. Rydym am sefyllfa lle mae disgyblion a rhieni yn gwbl glir beth yw'r disgwyliadau, gan weld cysondeb hefyd rhwng ysgolion. Drwy wahardd ffonau, mae'r problemau sy'n codi o ran camddefnyddio ffonau a chyfryngau cymdeithasol i fwlio a brifo athrawon a disgyblion eraill yn lleihau. Byddai ein haelodau yn gwerthfawrogi buddsoddiad Cenedlaethol mewn systemau sy'n caniatáu ysgolion i gloi ffonau mewn waledi yn ystod y dydd. Mae ysgolion sydd wedi arbrofi gyda systemau o'r fath yn nodi deilliannau cadarnhaol iawn o fewn yr ysgol a hefyd y tu allan i'r ysgol. Nododd un cwmni bysiau fod y difrod ar eu bysiau yn llai, gan fod y disgyblion yn defnyddio'r daith adref o'r ysgol i ddal i fyny gyda'r negeseuon ar eu ffonau.

ADDYSG DRYDYDDOL

a) Cyllido teg i Chweched Dosbarth

*Mae gennym bryder difrifol ynghylch addysg ôl-16 ac yn poeni am:

1. gyfleoedd dysgwyr i astudio ystod eang o bynciau Safon Uwch a galwedigaethol
2. y capasiti i gynnal dosbarthiadau hyfyw yn y Gymraeg
3. llwyth gwaith a sicrwydd swyddi staff addysgu
4. parhad a chynaliadwyedd cymunedau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

PAM?

*Rydym yn poeni nad oes cydraddoldeb rhwng darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion a darpariaeth colegau addysg bellach. Mae'n bwysig bod model cyllido addysg drydyddol yn adlewyrchu gwir gost darparu addysg ôl-16 mewn ysgolion a hefyd yn cydnabod gwerth cymdeithasol, cymunedol ac ieithyddol 6ed dosbarth ysgolion, yn enwedig o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

*Mae'n bwysig edrych ar dueddiadau mewn ardaloedd sy'n agos at y ffin. Rydym am weld ein disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg yng Nghymru a thrwy gyfrwng y Gymraeg ac nid yn cael eu denu dros y ffin ar gyfer eu haddysg drydyddol.

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i oedran statudol. Mae'n bwysig, felly, bod cyrsiau o bob math ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y GYMRAEG

*Rydym yn credu'n gryf y dylid sicrhau cyfleoedd i bob plentyn yng Nghymru gael mynediad at:

- i) Ofal plant ac addysg feithrin cyfrwng Cymraeg
- ii) Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol oedran addysg statudol
- iii) Addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg

Dylai hyn olygu cludiant am ddim i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a sicrwydd fod 'cyfrwng Cymraeg' yn golygu bod y gwersi, yr adnoddau, yr asesiadau ayb i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid sicrhau atebolrwydd llawn am hyn. Mae peth tystiolaeth fod arian wedi ei ddyrannu yn y gorffennol ar gyfer cyrsiau oedd yn addo darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond nad oedd yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg go iawn.

Credwn y dylid sicrhau fod darpariaeth Gymraeg o fewn pellter rhesymol i bob unigolyn. Rydym am weld darpariaeth Gymraeg yn tyfu ac yn datblygu, yn ogystal â gweld ysgolion yn symud ar hyd continwmm ieithyddol.

Mae'n bwysig bod pob cwrs, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

PAM?

*Rydym yn awyddus iawn i weld cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, er mwyn gwireddu'r dyhead am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

*Teimlwn ei bod hi'n bwysig bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a bod yr amodau cywir a phob hwylustod yn cael eu sicrhau ar gyfer darpariaeth o'r fath.

*Rydym o'r farn y dylai'r cyfle i dderbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg fod ar gael hefyd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

*Dyma'r ateb hirdymor hefyd i brinder gweithlu cyfrwng Cymraeg. Po fwyaf o blant a phobl ifanc fydd wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, po fwyaf o bobl fydd ar gael i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

ADY

*Mae angen edrych o'r newydd ar y ddarpariaeth ADY a'r modd y cyllidir y ddarpariaeth hon. Mae'n bwysig bod y disgyblion hyn yn cael y ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt.

*Mae angen sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei neilltuo ar gyfer ADY, er mwyn i sefydliadau addysg allu gwireddu gofynion y Ddeddf.

*Rydym hefyd am sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY sy'n dymuno derbyn eu haddysg ac yn dymuno derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael gwneud hynny.

PAM?

*Trist yw darllen nad oes cydraddoldeb yn bodoli ar hyn o bryd ac nad oes gweithwyr proffesiynol arbenigol sy'n rhugl eu Cymraeg ar gael ar gyfer pob sefyllfa. Rydym yn deall yr her sy'n bodoli o ran recriwtio, ond eto'n teimlo'n gryf mai hawl sylfaenol ein plant a'n pobl ifanc anabl yw cael yr un lefel o ddarpariaeth â'u cymheiriaid sy'n dewis addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Mae nifer o awdurdodau lleol yn nodi fod y galw am ddarpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg yn isel, ond y rheswm dros hyn mewn nifer o achosion yw fod rhieni/gofalwyr plant sydd ag anghenion ADY cymhleth yn fwy tebygol o ddanfôn eu plant i ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn sgil diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol o fewn yr awdurdod lleol. Teimlwn yn gryf y dylid dileu'r anghyfiawnder sylfaenol sy'n bodoli o fewn y system ADY bresennol. Ni ddylai sefyllfa fodoli lle mae disgyblion cyfrwng Cymraeg yn derbyn cefnogaeth drwy gyfrwng y Saesneg, gan nad oes cefnogaeth Gymraeg ar gael neu sefyllfa lle nad yw disgyblion yn derbyn y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod y plant a'r pobl ifanc a'u rhieni yn cael y gefnogaeth yn y Gymraeg a hynny heb orfod brwydro amdani.

CYLLID YSGOLION

* Mae cysylltiad agos iawn rhwng cynnydd mewn llwyth gwaith a chyllid ysgolion. Gyda thoriadau cyllidol mewn ysgolion, mae dosbarthiadau yn cynyddu o ran maint, mae llai o adnoddau, gan gynnwys llai o adnoddau dynol. Mae'r baich cynyddol yn cael ei ysgwyddo gan lai o unigolion. Nid yn unig mae dosbarthiadau mwy o faint yn fwy heriol i'w haddysgu, ond mae'r gwaith marcio yn fwyfwy beichus hefyd, felly mae llwyth gwaith athrawon yn trymha'u o fewn y dosbarth a thu hwnt i'r dosbarth. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld ysgolion yn gorfod cwtogi ar staff – yn wir, ychydig iawn o ysgolion sydd heb orfod wynebu heriau cyllidol ac felly mae'r pwysau'n fwy ar yr athrawon sy'n weddill.

PAM?

*Mae diffyg cyllid yn gallu creu amodau gwaith anodd. Mae hyn yn ei dro yn golygu nad yw pobl ifanc yn dymuno dilyn gyrfa ym myd addysg.

*Mae diffyg cyllid hefyd yn golygu fod yna wir heriau i gyflwyno darpariaeth o'r safon orau ac mae hyn yn ei dro yn arwain at ostyngiad mewn safonau.

*Mae'n bwysig cydnabod pwysigrwydd addysg i ddyfodol ein cenedl a'i ariannu yn unol â hynny.